

Bwrlwm Bethlehem

Bydd cyfarfod Bwrlwm yn ail gychwyn yn festri Bethlehem, Talybont yr wythnos hon, am 2.15 o'r gloch ddydd Iau, Ionawr 10. Croeso cynnes i chi alw draw am baned a sgwrs.

Gwasanaethau Nadolig

Diolch i bawb ohonoch a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd oedfaon Nadolig eglwysi'r Ofalaeth. Gwerthfawrogi pob ymdrech ac ymroddiad yng ngwaith yr eglwysi a'u Hysgolion Sul.

Cyngerdd Nadolig

Cafwyd cyflwyniad arbennig iawn gan Gôr Capel Coch a Chyfeilion yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis nos Sul, Rhagfyr 23. Daeth cynulleidfâ gref i fwynhau rhai o ganeuon *Gair yn Gnawd*, a gyflwynwyd gan y Côr yn Capel Coch y Nadolig blaenorol, ynghyd â darnau eraill. Diolch i Eleri Foulkes am hyfforddi ac arwain y Côr ac i'r band ac aelodau'r Côr am eu holl waith. Roedd elw'r noson at waith Cynllun Efe.

Ysgol Sul

Bydd yr Ysgolion Sul yn Capel Coch a Charmel yn aildechrau ddydd Sul nesaf, Ionawr 13. Cawn gyhoeddi eto ddyddiad aildechrau Ysgol Sul Bethlehem.

Y mis nesaf - Deiniolen

Oedfaon yn Nhŷ Elidir

Ionawr 13

5.00 p.m. - Dr Huw Tegid Roberts

Ionawr 20

5.00 p.m. - Y Gweinidog

Ionawr 27

5.00 p.m. - Mr John Roberts

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Ionawr 13: Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan Dr Huw Tegid Roberts.

CAPEL COCH A REHOBOTH, A NANT PADARN

Dydd Mawrth, Ionawr 8: NI FYDD y Bore Coffi misol yn cael ei gynnal.

Nos Fawrth, Ionawr 8: Cynhelir Oedfa Dechrau'r Flwyddyn am 7.00 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog, wedi ei threfnu gan y Gymdeithas Undebol.

Nos Wener, Ionawr 11: CIC am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Ionawr 13: Gwasanaethir yn y ddwy oedfa am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

CARMEL

Dydd Sul, Ionawr 13: Oedfa i dynnu sylw at Apêl Madagascar Undeb 2018-19 Undeb yr Annibynwyr am 5.00 o'r gloch.

BETHLEHEM

Dydd Iau, Ionawr 10: Bwrlwm am 2.15 o'r gloch.

Dydd Sul, Ionawr 13: Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Y mis nesaf - Llanberis

Ionawr 13

10.00 a.m. - Y Gweinidog

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Y Gweinidog

Ionawr 20

10.00 a.m. - Mr Richard Ll Jones

11.15 a.m. - Ysgol Sul

Ionawr 27

10.30 a.m. - Oedfa Deulu

Gofalaeth Fro'r
Llechen Las

Rhif 781
06 Ionawr, 2019
Gronyn

Gobaith a gweddi

Mae pawb yn bwriadu'n dda, ond gall ein geiriau ar ddechrau blwyddyn fod yn wag ac ystrydebol. 'Have a good year' oedd cyfarchiad un dyn wrth i mi dalu am betrol nos Galan, fel petai gen i'r gallu i sicrhau peth felly.

Roedd John Lennon yn nes ati mae'n debyg:

'A very merry Christmas
and a happy New Year,
Let's hope it's a good one
without any fear'.

Gobeithio oedd o am flwyddyn dda a dibryder. Roedd y gân hon yn ein herio i ddymuno'r gorau ar ddechrau blwyddyn. Mae'r geiriau'n dal i herio'r byd gan atgoffa pobl fod modd iddynt, os dymunant, wneud pethau a fydd yn sicrhau blwyddyn dda a dibryder. O ran baich John Lennon dros ddod â rhyfeloedd i ben, mae'n amlwg ein bod yn dal i ddisgwyl i'r byd ddymuno hynny. Ond o leiaf, gallwn fel Lennon obeithio am hynny a sawl peth arall.

A 'Blwyddyn Newydd Dda' meddwn ninnau mor rhwydd. Ond a oes modd i ni sicrhau nad geiriau ystrydebol ydynt ar ddechrau blwyddyn? Oes mae'n debyg trwy gofio nad addewid ond dymuniad yw'r geiriau. Fedrwn ni ddim addo blwyddyn dda i'n gilydd; fedrwn ni ddim gwarantu peth felly i ni'n hunain nac i neb arall. Ond mi fedrwn ddymuno hynny i'n gilydd. Gyda John Lennon, gallwn obeithio am beth felly i'r naill a'r llall.

Ond gallwn wneud mwy na hynny. Ar

ddechrau blwyddyn newydd gallwn weddio dros ein gilydd, a gweddio yn benodol ar i'r flwyddyn newydd esgor ar fendithion o bob math.

Ond beth ydi blwyddyn dda? Beth fyddai blwyddyn dda eleni? Ai blwyddyn y mae popeth yn mynd o'n plaid ynddi? Mor braf fyddai meddwl bod peth felly'n bosibl. Dyna wedi'r cyfan y byddai pawb ohonom yn ei ddymuno i'n gilydd. Ond yn y byd amherffaith hwn gyda'i ddiodeffiaidau a'i broblemau, mor annhebygol yw hynny.

Beth ynteu fyddai blwyddyn dda? Blwyddyn heb lawer o broblemau a gofidiau? Ie o bosibl. Ond tybed nad oes gwell na hynny i bobl ffydd? Onid blwyddyn dda eleni fydd ein bod yn ymwybod â gofal Duw amdanom, beth bynnag a ddigwydd? Blwyddyn dda fydd gwybod fod Duw yn rhoi ei nerth a'i gymorth hyd yn oed pan fo pethau'n galed ac anodd. Blwyddyn dda fydd profi diddanwech yng nghanol pob dioddefaint a phroffedigaeth, a medru byw bob dydd gan wybod fod yr Arglwydd ei hun yn gwmmiaeth ac yn gymorth beth bynnag a wynebwn. Blwyddyn dda fydd gwybod bob dydd am law'r Arglwydd 'a'i gafael ynof er nas gwelaf hi'.

Fyddiwn ni ddweud y gall y gwaethaf o flynyddoedd, trwy ras a thrugaredd Duw, fod yn dda os gwyddom am ei nerth a'i gynhaliath a'i obaith Ef yn ein cynnal a'n cynorthwyo?



Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnysaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch a Rehoboth (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan y Parchg Huw Pritchard.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 3.30 o'r gloch gan y Gweinidog.

Gwasanaethir yn Llanllechid am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Yn ystod yr oedfa cawn groesawu Manon Hughes yn aelod newydd o'r eglwys.

Cynhelir Oedfa Dechrau'r Flwyddyn yn Nhalybont am 2.00 o'r gloch

Cofion

Ar ddechrau blwyddyn newydd anfonwn ein cofion cynhesaf at bawb ohonoch gan ddymuno bendith Duw a phob daioni posibl i chi gydol ei dyddiau a'i misoedd.

'Dad Nefol; ar ddechrau'r flwyddyn newydd gweddiwn dros ein gilydd, a thros ein heglwys a'n gwlad a'n byd. Boed i ni dreulio oriau a dyddiau'r flwyddyn mewn ffordd a fydd yn dwyn clod a mawl i'w enw sanctaidd di. Bydd

Balm o Salm



'Molwch yr ARGLWYDD. Gwyn ei fyd y sawl sy'n ofni'r ARGLWYDD, ac yn ymhyfrydu'n llwyr yn ei orchmynion ... Fe lewyrcha goleuni mewn tywyllwch i'r uniawn; y mae'r cyfiawn yn raslon a thrugarog. Da yw i bob un drugarhau a rhoi benthyg, a threfnu ei orchwylion yn onest; oherwydd ni symudir ef o gwbl, a chofir y cyfiawn dros byth. Nid yw'n ofni newyddion drwg; y mae ei galon yn ddi-gryn, yn ymddiried yn yr ARGLWYDD' (Salm 112:1, 4-7).

gyda ni bob dydd, beth bynnag a ddaw, a chadw ni yn agos atat dy hun, fel y medrwn dy wasanaethu a phrofi ym mhob peth dy ddiddanwch a'th gysur a'th obaith.'

Y Gymdeithas Undebol Oedfa Blwyddyn Newydd

Bydd y Gymdeithas Undebol yn cynnal oedfa Dechrau'r Flwyddyn yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch nos Fawrth, Ionawr 8. Croeso cynnes i unrhyw un i ymuno â ni.

Marwolaeth

Ddydd Gwener, Rhagfyr 28 bu farw Mr William Henry Jones, Glaslyn, Llanberis, yn Ysbyty Gwynedd, yn 86 mlwydd oed. Roedd yn aelod ffyddlon yn Capel Coch ers blynyddoedd ac yn aelod o Bwyllgor Adeiladau'r eglwys. Wrth gydymdeimlo â'i frawd a'i chwaer a'r teulu, estynnwn ein cydymdeimlad i'w nith Valerie a'i phriod Colin a fu mor drwm iddo ac mor ofalus ohono ers i Wil gollu ei briod Glenys 16 o flynyddoedd yn ôl.

Cynhelir gwasanaeth angladd yn Capel Coch am 1.00 o'r gloch yfory, dydd Llun, Ionawr 7.

Coffâd

Dros y misoedd diwethaf, wedi ail ddechrau cyhoeddi *Gronyn* ym mis Medi, cynhwyswyd coffâd i aelodau eglwys i'r Ofalaeth a fu farw yn ystod y misoedd na lwyddwyd i'w gyhoeddi o ganol Mawrth hyd ddiwedd Awst. Mae un coffad yn weddill.

Mrs Falmai Pritchard

Bu farw Falmai gartref yng Nghilfynydd, Llanberis nos Iau, Mawrth 15, 2018 yn 59 mlwydd oed. Cafwyd gwasanaeth angladd yn Eglwys Sant Padarn ac yna ym Mynwent Nant Peris ddydd Sadwrn, Mawrth 24 dan arweiniad y Parchedigion Robert Roberts, Bryn Williams, Gwyn Rhydderch ac Euros Jones; a chafwyd datganiad yn yr Eglwys gan Gôr Seiriol y bu Falmai'n aelod ohono. Roedd Bethan a Gareth, cyd-gyfeilyddion Falmai yn Capel Coch, yn organyddion.

Cafwyd teyrnged gynnes gan Robert a oedd yn cyfeirio at ffydd Falmai a'i chymeriad a'i gwaith. Yn naturiol, fe soniodd am ei gofal a'i chariad atom ni ei theulu, ac am ei thystiolaeth Gristnogol gadarn. Roedd wedi dod i gredu yn Iesu Grist yn ferch ifanc ddeunaw oed, a byth ers hynny yr oedd ei ffydd a'i chariad at Iesu Grist yn sylfaen i'w bywyd, yn ei chartref yn Llanfeydd, yn y Coleg ym Mangor, yn ei gwaith, ac yn yr eglwys yn ardal Abersoch a'r Ofalaeth hon.

O ran yr Ofalaeth ac yn arbennig o ran ei chyfraniad i'w heglwys yn Capel Coch, carwn ddyfynnu geiriau un o aelodau Capel Coch yn dilyn ei marwolaeth: 'Os cafodd unrhyw un ei geni i fod yn wraig gweinidog, Falmai oedd honno'. Yr oedd yn fwy na 'gwraig gweinidog' wrth gwrs; yn wraig i mi, yn fam i'n plant, yn nain i'n hwyron, yn chwaer a chwaer yng nghyfraith, yn fodryb, yn athrawes, yn ffrind, yn berson arbennig iawn. Ond mi wnes i werthfawrogi'r geiriau am eu bod yn deyrnged i'w ffyddlondeb yng

ngwaith yr eglwys gan iddi roi o'i gorau i'r gwaith hwnnw dros y blynyddoedd. Yn Abersoch, ac yna yn Llanberis bu'n athrawes ac arweinydd yr Ysgol Sul, yn organydd, yn aelod ffyddlon, ac ers 2013 yn flaenor yn Capel Coch. Roedd wrth ei bodd yn trefnu gwahanol wasanaethau a gweithgareddau. Ond yn fwy na hynny hyd yn oed, yr oedd ei gofal am les yr eglwys a llwyddiant yr Efengyl yn fawr. Credai'n angerddol nad oedd dim yn bwysicach na'r Efengyl; a'r gobaith oedd ganddi trwy'r Efengyl am y nefoedd ac am gael bod gyda Iesu Grist am byth a'i galluogodd i wynebu ei gwaeledd a'i marwolaeth yn hyderus a llawn ffydd.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys â Mrs Betsy Jones, Bryn Eglwys, Llanberis a'r teulu yn y brofedigaeth lem o golli ei hwyres Becky Louise Edwards trwy ddamwain ar drothwy'r Nadolig. Cydymdeimlwn â merch a rhieni Becky, Medi, a Hefin a Sheila, a'r teulu cyfan.

Cydymdeimlwn â theuluoedd eraill a gollodd anwyliad dros gyfnod yr Ŵyl: Mrs Gwyneth Roberts a'r teulu, Ffarm Cochwillian, Talybont o golli ei thad; Neville ac Angharad Hughes, Bethesda o golli perthynas agos; a Miss Dilys Mai Roberts, Yr Haciau, Penisarwaun o golli ei nith. Boed i bawb ohonoch brofi cysur a nerth yn eich hiraeth a'ch galar.

Bore Coffi

Ni chynhelir y Bore Coffi yn Capel Coch yr wythnos hon. Bydd y nesaf ddydd Mawrth, Chwefror 12.

Geni

Llongyfarchiadau i Colin a Valerie Jones, Bryn Gelli, Llanberis ar ddod yn daid a nain unwaith eto. Ganwyd mab, Osian, i Sara a Dafydd ddydd Sul diwethaf.